

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

4 Medi 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Mr A Archer, y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 11.45am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol gan y Cynghorydd K Doolin, Mrs J James, Mr GA Jones, a'r Cynghorydd P Kidney. Roedd y Cynghorydd M Evans wedi dweud y byddai'n cyrraedd yn hwyr.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019.

4. Materion yn Codi

a) Penodi Swyddog Monitro (Cofnod 8)

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dau ymgeisydd yn cael eu cyfweld y prynhawn hwnnw, ac y gobeithir gwneud argymhelliad i Gyfarfod Arbennig Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 11 Medi 2019.

NODWYD.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd / digwyddiadau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Roedd y rheini'n cynnwys:

- Cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog, Hannah Blythyn, yn dilyn cyfarfod APC ar 25 Gorffennaf, a mynd gyda hi ar ymweliadau â Caeriw a Freshwater East. Manteisiwyd ar y cyfle i dynnu ei sylw at faterion



perthnasol. Cyflwynwyd mynegbost bach iddi, a gafodd ei wneud yn Cilrhedyn.

- Bod yn bresennol yn Ffair Ganoloesol Castell Caeriw.
- Derbyniadau a digwyddiadau rhwydweithio amrywiol yn Sioe'r Sir, gan gynnwys cyflwyno'r wobr ym Mhrif Bencampwriaeth y Defaid.
- Croesawu'r Llong Fordeithio 'Aidabella' yn Abergwaun.
- Cyflwyno siec i enillydd Cystadleuaeth Ffossil Sioe'r Sir yng Nghastell Henllys.

NODWYD.

6. Adroddiadau o gyfarfodydd amryw Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiadau o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD:

- (a) derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019, a
- (b) mabwysiadu'r adroddiadau am gyfarfodydd y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin, Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 5 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019, a'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019.

7. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Soniwyd mai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) oedd yr haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru a'i fod yn canolbwyntio ar faterion a heriau ym maes cynllunio'r defnydd o dir ar raddfa genedlaethol. Pwrpas yr NDF oedd dangos lle roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai Cymru dyfu a'r mathau o ddatblygiad sydd eu hangen yn ystod yr ugain mlynedd nesaf i helpu Cymru i fod yn gymdeithas gynaliadwy a llewyrchus.

Lansiwyd proses ymgynghori ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 ar 7 Awst a byddai'n parhau tan 1 Tachwedd 2019. Byddai swyddogion yn ymateb i'r ymgynghoriad fel rhan o grŵp Rhanbarth De-orllewin Cymru ac fel tri Pharc Cenedlaethol Cymru. Y prif faterion sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol yw ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ei leoliad ychydig y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, tai fforddiadwy, bioamrywiaeth, cysylltedd ffonau symudol, a seilwaith gwyrdd. Gofynnwyd i'r Aelodau roi unrhyw sylwadau neu farn a oedd ganddynt ar y ddogfen ymgynghori ddrafft i'r swyddogion erbyn 23 Medi 2019.



Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd y ddogfen. O ran y materion a godwyd, mynegwyd pryder ynghylch prinder signal symudol a band eang yn rhannau o'r sir yn ogystal ag effeithiau posibl mastiau ffôn. Cytunodd yr Aelodau hefyd fod angen ystyried effeithiau trawsffiniol ffermydd solar - yn weledol ac yn economaidd - yn ogystal â goblygiadau colli tir amaethyddol. Gobeithiwyd na fyddai cyfyngiadau ar ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y Parc Cenedlaethol yn rhwystro rhag rhoi caniatâd ar gyfer datblygiadau technolegol arloesol yn y dyfodol. O ran y ffigurau ar gyfer twf tai a nodwyd yn y ddogfen, credai'r Aelodau ei bod yn bwysig bod y rhain yn gynaliadwy a bod tai fforddiadwy yn parhau i gael eu darparu. O ran datblygu gwledig, nodwyd bod cydbwysedd pwysig i'w daro rhwng twristiaeth ac anghenion pobl sy'n byw yn yr ardal.

Cynigiwyd y dylid cytuno ar yr ymateb gyda Chadeirydd yr Awdurdod a gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd iddyn nhw weld yr ymateb ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD dirprwyo ymateb yr Awdurdod i ymgynghoriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod, a bod yr ymateb y cytunwyd arno yn cael ei ddisbarthu i'r Aelodau.

8. Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Atgoffwyd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad Brexit a'n Tir y llynedd. Ymgynghoriad lefel uchel oedd hwn yn nodi'r achos dros newid y modd y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr ac yn cynnig cynlluniau newydd i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad ac wedi gwneud nifer o newidiadau i'w chynigion. O'r pwys mwyaf, roedd y rhain bellach yn cydnabod yn benodol y rhyngweithio rhwng cynhyrchu bwyd a chanlyniadau amgylcheddol.

Roedd cynigion diwygiedig Llywodraeth Cymru i'w cael yn yr ymgynghoriad newydd "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir". Y diben oedd amddiffyn y tir a'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ond hefyd sicrhau incwm sefydlog i ffermwyr trwy Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Byddai'r cyfnod ymgynghori ar y ddogfen hon yn para tan 30 Hydref a byddai'r Awdurdod yn ymateb ar sail y tri Pharc. Gofynnwyd i'r Aelodau roi unrhyw sylwadau neu farn a oedd ganddynt ar y ddogfen ymgynghori ddrafft i Swyddog Cadwraeth Ffermydd yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2019.

Roedd yr Aelodau o'r farn y bu ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad blaenorol, ond roedd llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch y dyfodol.



Nodwyd bod y ddogfen yn sôn am reoli cynefinoedd, ond roedd diffyg eglurder hefyd ynghylch beth oedd y llinell sylfaen ar gyfer mesur gwelliannau ee Ansawdd Aer a gostyngiad mewn llygyddion cemegol; roedd hyn yn gysylltiedig â phryderon ynghylch dynodi Parthau Perygl Nitradau a chytunodd y swyddogion i geisio eglurder ar y berthynas rhwng y ddau. Wrth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei ddatblygu, teimlwyd y gallai mewnbwn ac arbenigedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ychwanegu llawer at y ddadl ac roedd cysylltu â hwy yn holl-bwysig. Barnwyd hefyd ei bod yn bwysig, wrth i'r cynllun ddatblygu, ystyried ffactorau 'allanol' a oedd yn cael effaith sylweddol ar ffermwyr, megis strategaeth brynu yr archfarchnadoedd.

Unwaith eto, oherwydd pwysigrwydd yr ymgynghoriad, cynigiwyd y dylid cytuno ar yr ymateb gyda Chadeirydd yr Awdurdod a gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd iddyn nhw weld yr ymateb ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD dirprwyo ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod, a bod yr ymateb y cytunwyd arno yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau.

9. Prosiect Cerdded er Lles Gorllewin Cymru

Soniwyd bod Cronfa Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymrun wedi darparu £400,000 yn ystod 2019 i gefnogi prosiect Cerdded er Lles Gorllewin Cymru. Byddai'r arian hwn yn cael ei ddyrannu i'r Awdurdod trwy gyfres o daliadau dros y tair blynedd nesaf (roedd disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2020) ac APCAP fyddai'r prif bartner a byddai hefyd yn rheoli'r prosiect ar ran partneriaid y prosiect. Yn ogystal ag APCAP, roedd y bartneriaeth yn cynnwys Ceredigion Actif (Cyngor Sir Ceredigion), Fifty Plus Forum Sir Gaerfyrddin (Cerdded Iach Sir Gâr), Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Hywel Dda (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Snowdrop Independent Living. Byddai'r Awdurdod yn dal y gronfa hon o dan mewn cyllideb ar wahân yn unol ag amodau'r grant.

Roedd grantiau yn cael eu rheoleiddio gan adran 77 o Safonau Ariannol yr Awdurdod ac roedd yn nodi bod angen cymeradwyaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol i dalu grant o fwy nag £20,000.

Fel prif bartner y prosiect, yr Awdurdod fyddai'n derbyn yr holl arian dros gyfnod o dair blynedd, ond byddai'n rhaid iddo ddosbarthu rhywfaint o'r arian i bartneriaid y prosiect dros oes y prosiect at ddibenion cyflawni'r prosiect. Er mwyn gallu dosbarthu'r arian yn brydlon ac yn effeithiol, cynigir - yn benodol yn unig mewn perthynas â'r prosiect hwn - fod yr Awdurdod yn cytuno ar amrywiad i'r Safonau Ariannol o ran grantiau o fwy nag £20,000 ac yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr yr hawl i gymeradwyo



unrhyw daliadau i bartneriaid fel yr amlinellir yn y llythyr yn cynnig y grant i brosiect Cerdded er Lles Gorllewin Cymru.

Yna aeth Arweinydd y Tîm Darganfod rhagddo i amlinellu nod y prosiect, sef datblygu model cynaliadwy ar gyfer grwpiau cerdded iechyd a lles ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn cefnogi unigolion a oedd ar hyn o bryd yn byw bywydau eisteddog neu gymharol eisteddog, i wneud mwy o ymarfer corff. Trwy ymgysylltu â'r sector Gofal Iechyd Sylfaenol, y nod oedd cynhyrchu model rhagnodi cymdeithasol cynaliadwy y gellid ei rannu â Llywodraeth Cymru ac eraill.

Teimlai'r Aelodau fod hwn yn brosiect arloesol iawn ac roeddent yn falch o glywed y byddai'r prosiect yn cysylltu â grwpiau cerdded presennol ac yn cynnwys pobl â phroblemau symudedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r bwriad oedd gweithio gyda thimau eraill yn yr Awdurdod i alluogi cyfranogwyr i ymgysylltu'n weithredol â'r dirwedd trwy gyfoethogi eu gwybodaeth amdani.

PENDERFYNWYD cymeradwyo amrywiad i'r safonau ariannol ar gyfer prosiect y Gronfa Iach ac Egnïol, Cerdded er Lles Gorllewin Cymru, a dirprwyo i'r Prif Weithredwr yr hawl i gymeradwyo unrhyw daliadau i bartneriaid fel yr amlinellir yn y llythyr yn cynnig y grant.

10. Polisi Cyfle Cyfartal

Soniwyd bod gan yr Awdurdod Bolisi Urddas yn y Gwaith a Chynllun Cydraddoldeb Strategol, ond nad oedd ganddo Bolisi Cyfle Cyfartal ar wahân. Roedd cael Polisi o'r fath yn cryfhau safle polisi'r Awdurdod, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a byddai'n helpu i gryfhau ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau cyfreithiol. Roedd y Polisi yn atodedig i'r adroddiad, a gofynnwyd i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo.

Dyweddodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn y cyfarfod fod un Aelod wedi cyflwyno sylwadau cyn y cyfarfod a bod y rhain yn cynnwys awgrym i ymgorffori, yn Adran 10, ddarpariaethau i'r Aelodau roi gwybod am bryder neu gŵyn. Awgrymwyd nifer o newidiadau manwl eraill i eiriad y polisi a chytunodd y swyddogion i gynnwys y rhain lle roeddent yn unol â'r geiriad deddfwriaethol a ymgorfforwyd yn y ddogfen.

Cytunodd yr Aelodau fod hon yn ddogfen bwysig, ond roedd yn hanfodol bod staff a rheolwyr yn ymwybodol o'r dyletswyddau a'r gofynion a nodir ynddi. Cytunodd y swyddog y byddai gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i sicrhau bod staff, rhai newydd a rhai hir-sefydlog, yn ogystal â chontractwyr, yn ymwybodol o'r cynnwys.



PENDERFYNWYD bod y Polisi Cyfle Cyfartal yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar ymgorffori sylwadau'r Aelodau lle bo hynny'n bosibl.

11. Polisi Diogelu Data, Polisi Defnyddwyr TGCh a Pholisi Diogelwch Data a Gwybodaeth

Soniwyd bod y gyfres uchod o bolisïau wedi'i hadolygu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â newidiadau yn y gyfraith diogelu data, a'u bod hefyd wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn defnyddio adnoddau TG ar hyn o bryd.

Yn ogystal â nifer o bwyntiau manwl a fyddai'n darparu gwell cysylltiadau o fewn a rhwng polisïau, roedd cwestiynau ynghylch y cyfeiriadau at Aelodau yn y polisïau, a'r angen am hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Hefyd o ran monitro, eglurodd y swyddogion fod dangosyddion diogelu data wedi'u cynnwys yn yr adroddiad perfformiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol. Cadarnhawyd y byddai'r Aelodau'n cael gwybod am unrhyw doriadau sylweddol o ran diogelu data.

Cydnabu'r Aelodau'r cyfrifoldebau beichus sy'n ymwneud â Diogelu Data a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn diweddarau'r polisïau.

PENDERFYNWYD bod y Polisi Diogelu Data, y Polisi Defnyddwyr TGCh a'r Polisi Diogelwch Data a Gwybodaeth yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar y diwygiadau a awgrymwyd gan Aelodau.

